# Rheoliadau marchnad ac is-ddeddfau

## Marchnadoedd Agored



2022 - 2025

peter.hayes@flintshire.gov.uk
07919 166279
07711 438412
07880 052277

CYNGOR SIR Y FFLINT
CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI
ADRAN MARCHNADOEDD
NEUADD Y SIR
RAIKES LANE
YR WYDDGRUG, CH7 6NF

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

*This document is available in English. Please contact [peter.hayes@flintshire.gov.uk](mailto:peter.hayes@flintshire.gov.uk) for a English version.*
*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â [peter.hayes@flintshire.gov.uk](mailto:peter.hayes@flintshire.gov.uk) i gael fersiwn Saesneg.*

# CYNGOR SIR Y FFLINT

# RHEOLIADAU MARCHNAD AWYR AGORED

## LLEOLIADAU AC ORIAU MARCHNADOEDD

1 Bydd Marchnadoedd y Cyngor yn cael eu cynnal yn y mannau canlynol, ynghyd â llefydd eraill fel y gall y Cyngor benderfynu arnynt.

| TREF | DYDDIAU | AMSEROEDD | SEFYLLFA |
|---|---|---|---|
| CEI CONNAH | DYDD IAU | 8.30am-5.00pm | Yn yr ardal o flaen y ganolfan siopa. |
| YR WYDDGRUG | DYDD MERCHER<br>DYDD SADWRN | 6.00am-6.00pm | Yn ardal y Stryd Fawr sydd rhwng ei chyffyrdd â Stryd Caer/ Newydd a Stryd y Brenin, ynghyd â Sgwâr Daniel Owen. |
| TREFFYNNON | DYDD IAU | 7.00am-4.30pm | Gerddi'r Tŵr ac ardal y Stryd Fawr rhwng Y Groes a Gerddi'r Tŵr |

## POB MASNACHWR

### STONDINAU

2 Masnachwr parhaol yw masnachwr sydd wedi ei glustnodi ar lain parhaol ar gyfer pob diwrnod marchnad ac wedi cytuno i gydymffurfio'n llawn â Rheoliadau'r Cyngor yn ymwneud â thalu ffioedd a gweithrediad y farchnad.

3 Bydd llain sydd wedi'i gadw ar gyfer masnachwyr parhaol nad yw'n cael ei feddiannu erbyn 8.00am yn cael ei ail-osod.

4 Ar adegau, efallai y bydd angen i'r Cyngor ganslo dyraniad llain penodol ar ddiwrnod marchnad penodol er mwyn caniatáu i waith cynnal a chadw a gwaith arall fwrw ymlaen mewn cysylltiad â safleoedd cyfagos a/neu'r briffordd neu am resymau tebyg eraill.

5 Bydd llain sy'n cael ei osod i fasnachwr parhaol nad yw'n cael ei feddiannu am dair wythnos yn olynol yn cael ei ystyried yn wag oni bai bod y masnachwr wedi cysylltu â Swyddog Marchnad ac wedi rhoi rheswm derbyniol, e.e. tystysgrif feddygol a ddarperir fel prawf o salwch.

5.1 Yn achos masnachwyr achlysurol bydd absenoldeb o'r fath yn arwain at golli safle ar y rhestr aros.

6 Pe bai llain parhaol yn dod yn wag, bydd dyrannu'r llain gwag yn dilyn trefn:

a) Masnachwyr parhaol ar sail safle ar y rhestr.
b) Masnachwyr achlysurol ar sail safle ar y rhestr.

DS Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei wneud mewn perthynas â'r math o nwyddau sy'n cael eu gwerthu.

7 Caiff masnachwyr feddiannu ond y safleoedd a ddyrannwyd iddynt gan Swyddog y Farchnad.

8 Rhaid i'r masnachwr trwyddedig neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd dilys ofalu am stondinau unigol yn ystod oriau marchnad. Ni chaniateir rheoli mwy nag un llain gan unrhyw fasnachwr a/neu ei gynrychiolwyr. (Ni fwriedir bod y Rheoliad hwn yn atal masnachwyr rhag cymryd eu seibiannau bwyd arferol).

9 Rhaid i'r masnachwr cofrestredig gwblhau ffurflen gofrestru ar gyfer unrhyw unigolyn a fydd yn gofalu am eu stondin.

10 Gwaherddir gwerthu, trosglwyddo neu is-osod stondinau, nac unrhyw ran ynddo.

11 Mae gofyn i fasnachwyr gadw eu stondinau a'u ffitiadau a'r lle o dan y stondinau yn lân ac yn rhydd o sbwriel. Rhaid cadw pob ffitiad, gosodiadau a chyfarpar sy'n eiddo i fasnachwyr mewn cyflwr da ac ni ddylai fod yn berygl i'r cyhoedd.

12 Mae'r Cyngor yn ymwrthod â'r holl rwymedigaethau ar gyfer damweiniau a achosir gan, neu sy'n codi o, dadfeiliad, cyflwr neu adeiladwaith unrhyw stondin.

13 Mae pob masnachwr yn gyfrifol am ei ddiogelwch ei hun a diogelwch y cyhoedd o fewn ôl troed ei stondin ei hun.

14 Rhaid rhoi gwybod yn syth i'r Swyddog Marchnad am bob damwain.

15 Bydd rhaid i bob masnachwr neu feddiannwr stondin storio'n foddhaol yr holl wastraff rhydd mewn cynhwysydd addas a rhaid i bob cardbord gael ei wastatáu er mwyn atal ei ledaeniad gan dywydd garw. Pan fydd y farchnad yn cau rhaid i'r holl wastraff sy'n deillio o'r busnes gael ei osod yn daclus fel y cymeradwyir gan Swyddog y Farchnad i'w gasglu gan y Cyngor.

15.1 Ni chaiff masnachwyr ddefnyddio biniau sbwriel cyhoeddus i waredu eu gwastraff.

## NWYDDAU

16 Ni chaiff masnachwyr werthu unrhyw fath o nwyddau ar wahân i'r rhai y maent wedi eu cofrestru ar eu cyfer. Rhaid i unrhyw gais gan fasnachwr i ychwanegu neu newid mathau o nwyddau sy'n cael eu gwerthu gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig at Swyddog y Farchnad. Ni ddylai'r nwyddau ychwanegol hyn gael eu harddangos ar werth nes bod cadarnhad ysgrifenedig wedi ei dderbyn gan y Cyngor.

a) Bydd masnachwyr sy'n gwerthu'r un brif eitem (e.e. dillad) yn derbyn llain sydd o leiaf dri stondin i ffwrdd o'i gilydd, lle bo'n bosibl.

b) Ni fydd eitemau ychwanegol a ychwanegwyd at drwydded masnachwr parhaol yn cael eu hystyried fel prif eitem.

17 Bydd gofyn i fasnachwyr arddangos yr holl nwyddau y maent wedi gofyn am ganiatâd i'w gwerthu ac y mae cymeradwyaeth wedi ei roi ar ei gyfer. Bydd methiant ar ran masnachwr i arddangos unrhyw un o'r nwyddau cymeradwy o fewn cyfnod o ddeuddeg mis yn arwain at dynnu'r nwyddau hynny o ffurflen gofrestru'r masnachwr.

18 Gall ceisiadau gan fasnachwyr presennol i newid eu prif heitem gael eu hystyried gan y Cyngor, ond bydd yn parhau'n ddarostyngedig i 16a. Ni fydd newid prif eitem yn arwain at golli safle ar y rhestr i fasnachwyr presennol. Yn achos masnachwyr achlysurol, bydd ceisiadau o'r fath yn arwain at golli safle ar y rhestr.

19 Ni chaiff masnachwyr osod nwyddau y tu hwnt i ffiniau eu stondinau naill ai ar y ddaear neu'n hongian o unrhyw ran o'r stondin oni bai bod caniatâd blaenorol wedi'i dderbyn gan Swyddog y Farchnad.

20 Rhaid i bob masnachwr sy'n gwerthu bwyd o fewn ystyr Deddf Diogelwch Bwyd 1990 gydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf ddywededig ac unrhyw Reoliadau a wneir yno..

20.1 Rhaid i fasnachwyr gofrestru gyda'r Adran Diogelwch Bwyd yn unol â Rheoliadau Mangre Bwyd (Cofrestriadau) 1991, fel y'i diwygiwyd.

20.2 Rhaid i sgoriau hylendid bwyd gael eu harddangos yn glir gan y masnachwr.

20.3 Rhaid cadw at reoliadau labelu alergenau bwyd.

21 Rhaid i'r holl fwyd sy'n cael ei drin, ei storio, ei becynnu, ei arddangos a'i gludo gael ei ddiogelu rhag unrhyw halogiad sy'n debygol o rendro'r bwyd yn anaddas i bobl fwyta, yn halogedig neu'n niweidiol i iechyd. Rhaid gosod a/neu ddiogelu bwyd mewn modd sy'n lleihau unrhyw risg o halogiad.

22 Lle bo hynny'n berthnasol, dylai bwyd sy'n debygol o feithrin twf micro-organebau pathogenaidd neu ffurfio tocsinau gael ei gadw ar dymheredd ar neu islaw +8C neu ar neu'n uwch na +63C.

23 Gwaherddir gwerthu anifeiliaid byw, pysgod, adar a ffowls eraill.

24 Gwaherddir gwerthu arfau peryglus.

25 Ni chaniateir aciwbigo, tyllu'r glust, tatŵo nac electrolysis o unrhyw stondin o fewn Marchnadoedd Stryd y Cyngor.

26 Masnachwyr sy'n gyfrifol am wneud cwsmeriaid yn ymwybodol o unrhyw derfynau oedran ar werthu rhai nwyddau drwy arddangos y gyfraith sy'n ymwneud â hwy.

27 Mae pob masnachwr marchnad i fasnachu tan 3.30pm. Ni ddylai masnachwyr ddechrau pacio nwyddau tan 3pm ar y cynharaf, oni bai bod tywydd garw. Bydd unrhyw benderfyniad i ganiatáu i fasnachu orffen yn gynnar yn cael ei wneud gan Swyddog y Farchnad ar y diwrnod.

## COSTAU'R FARCHNAD

28 Mae'n ofynnol i fasnachwyr dalu am yr holl ofod y maent yn ei ddefnyddio sy'n cynnwys unrhyw ddarn o dir o dan unrhyw ran o'r stondin sy'n bargodi ac unrhyw dir a ddefnyddir i storio neu arddangos nwyddau.

29 Unwaith y bydd llain wedi ei ddyrannu, bydd ffioedd yn daladwy ar alw p'un ai ydyw'n cael ei feddiannu'n llawn ai peidio oni bai ei fod er budd gorau'r farchnad i leihau maint y llain.

Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i ail-ddyrannu unrhyw ran o lain nad yw'n cael ei ddefnyddio gan fasnachwr.

30 Dylai masnachwyr fod â ffioedd llain ar gael cyn cychwyn masnachu

31 Mae'n rhaid i bob masnachwr parhaol dalu ffioedd yn unol â pholisi taliadau presennol y Cyngor, h.y.

(i) Rhaid i fasnachwyr dalu ffioedd os ydynt yn mynychu'r farchnad ai peidio ag eithrio na fydd ffioedd yn daladwy mewn perthynas â pheidio â bod yn bresennol ar DDEG diwrnod marchnad (yn unigol neu'n olynol) yn ystod y cyfnod deuddeg mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn.

(ii) os bydd cyfnodau parhaus o absenoldebau salwch tymor hir, wedi ei ardystio'n briodol, bydd y ffi i neilltuo llain yn hanner y ffi arferol am y mis cyntaf ac yna'n chwarter y ffi arferol am y ddau fis canlynol. Terfynir cofrestru yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod o dri mis, ynghyd â'r holl hawliau ar y farchnad. Ni fydd y trefniadau hyn yn effeithio ar hawl masnachwyr parhaol i Ddeg diwrnod o absenoldeb ym mhob blwyddyn ariannol.

(iii) bydd masnachwr sy'n dioddef profedigaeth aelod agos o'r teulu yn cael absenoldeb o un diwrnod masnachu, heb fforffedu hawliau, ac heb ffioedd marchnad.

32 Bydd masnachwr sydd yn methu talu ffioedd sy'n daladwy yn fforffedu'r hawl i lain yn awtomatig a phob hawl arall ar farchnadoedd y Cyngor.

33 Bydd derbynneb swyddogol yn cael ei darparu am ffioedd a dalwyd. Dylid cadw y dderbynneb a'i rhoi ar gael i'w harchwilio ar alw gan y Swyddog Marchnad, neu archwilydd awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran y Cyngor.

34 Swyddog y Farchnad sy'n penderfynu a yw 'Amodau Tywydd Garw' yn berthnasol ai peidio o ran amodau tywydd yn y farchnad. Byddai gwyntoedd cryfion yn enghraifft o dywydd garw.

(i) Gall masnachwyr marchnad sy'n bresennol ar y pryd y mae amodau tywydd garw yn cael eu datgan ddewis peidio â masnachu, neu roi'r gorau i fasnachu. Bydd masnachwyr yna'n defnyddio un o'u diwrnodau nad ydynt yn bresennol (ceir manylion yn rheoliad 31)

DS Pe bai amodau tywydd mor ddifrifol ag effeithio ar weithrediad cyffredinol y farchnad, gellir canslo'r farchnad a gellir hepgor ffioedd y farchnad yn llawn neu'n rhannol yn ôl disgresiwn Swyddog y Farchnad.

35 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i adolygu ffioedd yn flynyddol, neu ym mha ffordd bynnag y gwelant bod angen gwneud hynny.

# CERBYDAU

36 Ni fydd cerbydau'n cael aros yn ardal y farchnad. Gall Swyddog y Farchnad lacio'r ddarpariaeth hyn yn ystod tywydd garw am resymau diogelwch.

37 Os yw masnachwr yn dymuno masnachu o gerbyd symudol y gellir ei gloi, gellir caniatáu hyn yn ôl disgresiwn Swyddog y Farchnad, ond drwy ganiatáu'r fath fasnachu mae'r Cyngor drwy hyn yn cadarnhau na fydd tenantiaeth 'busnes' yn cael ei greu. Rhaid i gerbydau o'r fath gydymffurfio'n llawn â gofynion Hylendid ac Iechyd a Diogelwch perthnasol.

38 Rhaid dadlwytho cerbydau cyn cychwyn gwerthu nwyddau i'r cyhoedd ac mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na'r amser a osodwyd ar gyfer cychwyn y farchnad, oni bai bod caniatâd blaenorol wedi'i dderbyn gan Swyddog y Farchnad.

39 Rhaid i fasnachwyr ddilyn yr amserlen canlynol wrth ddadlwytho a llwytho cerbydau (Yr Wyddgrug yn unig):

(i) Rhaid i gerbydau gael eu symud o ardal y farchnad cyn 8am yn dilyn dadlwytho'r sifft gyntaf.
(ii) Ni fydd dadlwytho'r ail sifft yn cael mynediad i ardal y farchnad nes 8am a bydd rhaid symud cerbydau o ardal y farchnad cyn 9am.
(iii) Ni fydd llwytho'r sifft cyntaf yn cael mynediad i ardal y farchnad gyda cherbydau tan 3:30pm.
(iv) Ni fydd llwytho'r ail sifft yn cael mynediad i ardal y farchnad gyda cherbydau tan 4:30pm.

40 Rhaid tynnu stondinau a'r holl nwyddau eraill o ardal y farchnad heb fod yn hwyrach nag awr yn dilyn yr amser a osodwyd ar gyfer cau'r farchnad.

# CYFFREDINOL

41 Rhaid i'r holl fasnachwyr cofrestredig, achlysurol neu fel arall, fod yn 18 oed neu'n hŷn.

42 Rhaid i fasnachwr hysbysu'r Swyddog Marchnad o unrhyw newid yng ngweithrediad y stondin, gan gynnwys unrhyw newid i fanylion cofrestru.

43 Rhaid rhoi rhybudd o beidio â mynychu drwy gysylltu â Swyddog Marchnad yn uniongyrchol cyn 8:00am ar ddiwrnod y farchnad. (Rhif Swyddfa 07919 166279). (Swyddogion y Farchnad 07880 052277, 07711 438113)

44 Gall masnachwr drosglwyddo ei lain i aelod o'i deulu. Rhaid cyflwyno hyn yn ysgrifenedig i Swyddog y Farchnad. Yna bydd y Cyngor yn darparu ymateb ysgrifenedig.

45 Rhaid i bob masnachwr sy'n masnachu o farchnadoedd agored y Cyngor indemnio'r Cyngor yn erbyn pob gweithred o ganlyniad i weithgaredd o'r fath a chynnal Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol yn cwmpasu isafswm o £5 miliwn, ac ar ôl cael cais, rhaid cynhyrchu tystiolaeth i'r Cyngor o yswiriant o'r fath.

46 Rhaid i bob masnachwr parhaol gael ei Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ei hunan. Pe bai Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus wedi dod i ben ac yn aros i gael ei adnewyddu, yna bydd gofyn i fasnachwyr parhaol wneud defnydd o yswiriant y Cyngor ei hun dros dro yn unig. Dim ond am bedair wythnos ar y mwyaf y bydd hyn yn cael ei ganiatáu.

47 Ni chaiff unrhyw fasnachwr bedlera na chario eitemau o amgylch i'w gwerthu. Yn ogystal, ni chaiff unrhyw fasnachwr alw na gwneud unrhyw sŵn i gesio denu sylw cwsmeriaid at unrhyw stondin.

48 Ni chaiff masnachwyr a'u cynorthwywyr wneud unrhyw beth a allai achosi perygl, niwsans neu annifyrrwch i fasnachwyr eraill neu ymwelwyr i'r marchnadoedd.

49 Ni ddylai masnachwyr osod unrhyw erthygl yn erbyn nac ar unrhyw goeden, post neu eitem arall o ddodrefn stryd.

50 Dylai masnachwyr gysylltu â Swyddog Marchnad os bydd unrhyw faterion neu anghydfodau yn ymwneud â masnachwyr eraill a pheidio â cheisio delio â'r mater eu hunain.

51 Rhaid i fasnachwyr gydymffurfio â chyfarwyddiadau a gofynion rhesymol Swyddog y Farchnad.

52 Ni ddylai masnachwyr aflonyddu, bygwth neu fel arall atal y Swyddog Marchnad rhag rheoli'r farchnad na gorfodi'r Rheoliadau hyn. Bydd mynd yn groes i'r gofyniad hwn yn cael ei ystyried yn doriad difrifol o'r Rheoliadau a gall arwain at derfynu cofrestriad masnachwr.

53 Os bydd unrhyw fasnachwr ddim yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn yn ystod cynnal y farchnad, gall Swyddog y Farchnad ei gwneud yn ofynnol i'r masnachwr adael ar unwaith a chymryd ei eiddo. Ni ellir herio penderfyniad Swyddog y Farchnad ar y diwrnod, fodd bynnag gall masnachwyr apelio'n ysgrifenedig, o fewn 7 diwrnod i'r Uwch Swyddog Marchnadoedd. Os yw masnachwr yn anhapus gyda'r ymateb ac yn dymuno apelio ymhellach, rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig at y Rheolwr Datblygu Busnes.

Cyfeiriad: Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. Sir y Fflint CH7 6NA

54 Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod stondin i fasnachwr cofrestredig neu fasnachwr arall sydd wedi mynd yn groes i unrhyw un o'r Amodau uchod.

## MASNACHWYR ACHLYSUROL

1 Mae gosodiadau achlysurol ar gyfer diwrnod y farchnad yn unig, gyda ffioedd yn daladwy ar alw i Swyddog y Farchnad.

2 Bydd yn ofynnol i fasnachwyr sydd am wneud cais i gofrestru dalu Ffi Gofrestru sydd wedi ei gosod gan y Cyngor.

3 Bob dydd, mae lleiniau gwag fel arfer yn cael eu dyrannu ar sail safle ar y rhestr ac mae'n parhau'n ddarostyngedig i 16a. Bydd masnachwyr achlysurol tymor hir yn cael eu hystyried yn gyntaf, fodd bynnag, gall masnachwr achlysurol sy'n gwerthu nwyddau nad ydynt yn cael eu cynrychioli ar y farchnad y diwrnod hwnnw gael eu hystyried yn gyntaf a chael blaenoriaeth dros y masnachwr achlysurol sydd uchaf ar y rhestr.

4 Pe bai Swyddog y Farchnad yn credu na fyddai math arbennig o fasnach er budd y farchnad h.y. masnachwr sy'n gwerthu nwyddau sydd eisoes yn cael eu cynrychioli'n dda ar y diwrnod, yna gall Swyddog y Farchnad wrthod y masnachwr achlysurol rhag cael llain.

5 Bydd angen i fasnachwyr achlysurol sydd heb yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ddefnyddio yswiriant y Cyngor dros dro yn unig. Dim ond am bedair wythnos ar y mwyaf y bydd hyn yn cael ei ganiatáu.

# MARCHNAD AWYR AGORED TREFFYNNON

## AMODAU ARBENNIG YN YMWNEUD Â GWEITHREDIAD Y FARCHNAD

Mae'r defnydd o Erddi'r Tŵr, a'r brif Stryd Fawr, gan y Cyngor ar gyfer ei gweithrediadau Marchnad Awyr Agored yn Nhreffynnon yn destun cyfyngiadau cynllunio penodol a chyfyngiadau eraill. Dyrannir lleiniau ar y sail bod masnachwyr yn ymwybodol o'r amodau hyn, ac yn cytuno i gydymffurfio â hwy yn ogystal â Rheoliadau'r Farchnad ac Is-ddeddfau'r Farchnad.

1 Codir tâl ar fasnachwyr am ardal lawn y llain p'un ai ydynt yn meddiannu ardal lawn y llain ar unrhyw ddiwrnod marchnad penodol ai peidio.

2 Ni chaniateir tresmasu y tu hwnt i ardaloedd y llain ar gyfer canopïau, storio nwyddau neu raffau tynhau ac ati.

3 Ni fydd masnachwyr yn cael rhwystro mynediadau i safleoedd cyfagos.

4 Ar adegau, efallai y bydd angen i'r Cyngor ganslo dyraniad llain benodol ar ddiwrnod marchnad penodol er mwyn caniatáu i waith cynnal a chadw a gwaith arall fynd ymlaen mewn cysylltiad â safle cyfagos a/neu'r brifffordd

5 Bydd lleiniau'n cael eu dyrannu er mwyn cyflawni cymysgedd da o fasnach. Pe na bai masnachwyr yn cael llain barhaol, bydd rhestr achlysurol yn cael ei chynnal ar y sail arferol.

6 Bydd masnachwyr yn gyfrifol am gael gwared ar unrhyw wastraff maen nhw wedi ei gronni ar ddiwedd pob shifft.

7 Dylai masnachwyr ddilyn yr amserlenni canlynol wrth ddadlwytho a llwytho cerbydau:

(i) Dadlwytho – Dylid symud cerbydau masnachwyr o ardal y farchnad cyn 9am.

(ii) Llwytho - Ni chaiff masnachwyr fynd i mewn i ardal y farchnad gyda cherbydau tan 2:30pm.

8 Ni fydd cerbydau masnachwyr yn cael aros yn ardal y farchnad, oni bai bod Swyddog y Farchnad yn ystyried bod y tywydd yn arw.

9 O ran stondinau ar Erddi'r Tŵr, gall llwytho a dadlwytho ddigwydd ond o'r maes parcio cyfagos ac ni chaniateir hynny o unrhyw brifffordd.

10 Rhaid symud lorïau neu drolïau a ddefnyddir ar gyfer cludo nwyddau i neu o ardal y farchnad o ardal y farchnad cyn dechrau masnachu a phan bydd y farchnad yn cau.

11 Dim ond am 8 wythnos yn olynol y bydd gan fasnachwyr newydd yr hawl i stondin am hanner ffi y llain.

12 Gellir llogi gasiboau am y diwrnod am £25. Bydd angen i fasnachwyr sy'n dymuno defnyddio un o gasiboau'r Cyngor roi rhybudd o 24 awr trwy siarad â'r Swyddog Marchnadoedd ar 07919 166279. Bydd masnachwyr wedyn yn gwbl gyfrifol am gasglu, codi, datgymalu a dychwelyd gasiboau i'w storio.

# ESTYNIAD I FARCHNAD STRYD YR WYDDGRUG
# SGWÂR DANIEL OWEN

Mae'r amodau hyn yn atodol i Reoliadau Marchnad y Cyngor:

1 Rhaid i gerbydau beidio â gyrru i'r Sgwâr nac ar neu dros y droedffordd.

2 Rhaid ffitio lorïau a ddefnyddir i gludo nwyddau gydag olwynion plastig neu rwber. Ni chaniateir unrhyw loriau olwyn metel.

3 Rhaid peidio â chronni sbwriel yn y lleiniau ac o'u cwmpas. Rhaid rhoi pob sbwriel mewn cynwysyddion addas.

4 Ni chaniateir storio stondinau ar y safle.

5 Ni chaiff unrhyw beth ei osod, ei godi, ei leoli ar, neu fargodi unrhyw ran o'r briffordd, y droedffordd neu'r ffordd gerbydau cyfagos.

6 Ni chaiff stondin ei leoli'n agosach nag un metr i gefn troedffordd y briffordd.

7 Mae pob masnachwr marchnad i fasnachu tan 3.00pm. Rhaid i fasnachwyr beidio â dechrau pacio nwyddau i ffwrdd tan 2.30pm ar y cynharaf, oni bai bod tywydd garw. Bydd unrhyw benderfyniad i ganiatáu i fasnachu orffen yn gynnar yn cael ei wneud gan Swyddog y Farchnad ar y diwrnod.

# MARCHNAD CEI CONNAH

Amodau Arbennig yn ymwneud â gweithrediad y farchnad:

Mae’r amodau hyn yn atodol i Reoliadau Marchnad y Cyngor ac yn ymwneud â symud cerbydau o ardal y farchnad ar ddiwedd y dydd sydd fel a ganlyn:

1 Ni ddylid symud unrhyw faniau o ardal y farchnad cyn 3pm.

2 Mae unrhyw gamau sy’n debygol o achosi perygl neu niwsans neu annifyrrwch i fasnachwyr eraill neu ymwelwyr â’r farchnad wedi eu gwahardd a rhaid i fasnachwyr gydymffurfio’n ddi-gwestiwn â chyfarwyddiadau a gofynion rhesymol Swyddog y Farchnad.

3 Bydd masnachwyr yn gyfrifol am gael gwared ar unrhyw wastraff maen nhw wedi’i gronni ar ddiwedd pob shifft.

# CYNGOR SIR Y FFLINT

# IS-DDEDDFAU MARCHNAD

Gwnaed gan Gyngor Sir y Fflint wrth iddo arfer ei bwerau o dan Adran 60 o'r Ddeddf Bwyd 1984 o ran ei farchnadoedd agored yng Nghei Connah, Y Fflint, Treffynnon a'r Wyddgrug.

## DEHONGLIAD

1 Yn yr Is-ddeddfau hyn:

(a) ystyr "y Cyngor" yw Cyngor Sir y Fflint;

(b) ystyr "marchnad agored" yw'r marchnadoedd agored yn yr Wyddgrug, Treffynnon, Cei Conna a'r Fflint yn ôl eu trefn;

(c) ystyr "marchnad" yw marchnad agored;

(d) mae "nwyddau" yn cynnwys darpariaethau a nwyddau a ddygir i'r farchnad at ddiben gwerthu;

(e) ystyr "oriau marchnad" yw'r oriau a benodir gan y Cyngor (o dan Adran 52 o Ddeddf Bwyd 1984) ar gyfer cynnal marchnad;

(f) ystyr "swyddog y farchnad" yw'r person a benodir gan y Cyngor i arfer goruchwyliaeth rheoli cyffredinol a rheoli unrhyw farchnad neu ei gynrychiolydd a awdurdodwyd yn briodol;

(g) mae "gwerthu a gwerthiant" yn cynnwys dangos ac amlygu ar gyfer gwerthu;

(h) mae "stondin" yn cynnwys unrhyw adeilad, siop, swyddfa, adran, mainc sefydlog, bwrdd, lle, llain, safle neu ofod mewn marchnad sy'n cael ei ddefnyddio neu fwriadu ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu nwyddau;

(i) mae "cerbyd" yn cynnwys unrhyw gerbyd wedi ei yrru'n fecanyddol (ag eithrio cadair person methedig) ac unrhyw feic, treisicl, berfa, cert, berfa drol, lori, wagen neu drelar

## RHEOLEIDDIO TRAFFIG AC ATAL RHWYSTR

2 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Is-ddeddf 4 ynghylch hyn, ni fydd yr un person sy'n gyfrifol am gerbyd yn

(a) gyrru neu ganiatáu iddo gael ei yrru ar balmant neu droedffordd mewn marchnad, neu

(b) caniatáu iddo aros mewn neu ar unrhyw lwybr, tramwyfa, ffordd, palmant neu droedffordd mewn man marchnad, neu yn y ffyrdd cyfagos i'r fan honno am fwy o amser nag sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer llwytho neu ddadlwytho nwyddau.

3 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Is-ddeddf 4 ynghylch hyn, ni chaiff yr un person ddod â neu gario at, drwy neu o farchnad i'r ffyrdd cyfagos iddo na chaniatáu i unrhyw gerbyd neu nwyddau aros yno mewn modd sy'n achosi rhwystr

(a) mewn marchnad neu yn y ffyrdd cyfagos ati, neu

(b) heb ragfarn i gyffredinolrwydd (a) uchod at y defnydd o offer ymladd tân.

Ar yr amod na fydd unrhyw beth yn hyn a'r is-ddeddf flaenorol yn berthnasol i unrhyw gerbyd a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer gwerthu nwyddau ohono ac wedi ei leoli mewn marchnad agored gyda chydsyniad Swyddog y Farchnad ar safle a ddyrannwyd ganddo neu mewn lle a osodwyd ar wahân gan y Cyngor ac a nodir drwy ddangos mewn man amlwg rybudd cyhoeddus i'r perwyl hwnnw.

4 Ar yr amod na fydd unrhyw beth yn yr Is-ddeddf hon nac Is-ddeddfau 2 a 3 ynghylch hyn yn berthnasol i unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion brigâd dân, ambiwlans, yr heddlu neu waredu sbwriel yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

5 Ni chaiff unrhyw berson osod i lawr neu achosi i gael ei osod i lawr mewn marchnad (mewn mannau gwahanol i neu ar unrhyw stondin sydd wedi ei ddyrannu iddo) unrhyw nwyddau neu unrhyw gynhwysydd ar gyfer nwyddau am gyfnod hirach neu mewn unrhyw fodd arall nag sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer llwytho neu ddadlwytho'r nwyddau.

6 Ni chaiff unrhyw nwyddau nac unrhyw gynhwysydd ar gyfer nwyddau eu gosod mewn neu ar unrhyw stondin mewn marchnad er mwyn bargodi y tu hwnt i derfynau stondin o'r fath.

7 Ni chaiff unrhyw ran o unrhyw do stondin fod yn llai na 6'6" o'r ddaear.

8 Ni chaiff unrhyw denant na meddiannydd stondin mewn marchnad agored hongian unrhyw nwyddau ar neu o stondin o'r fath mewn modd neu mewn sefyllfa sy'n debygol o achosi perygl.

9 Ni chaiff yr un person rwystro'n fwriadol, tarfu neu rwystro unrhyw berson yn y defnydd priodol o farchnad neu o'r ffyrdd cyfagos iddi neu o unrhyw ffitiadau, troliau neu gyfarpar arall a ddarperir i'w ddefnyddio yno a heb ragfarn i gyffredinolrwydd y blaenori ni chaiff unrhyw berson, heb gydsyniad ysgrifenedig Swyddog y Farchnad, osod neu feddiannu stondin neu osod unrhyw nwyddau ar balmant neu droedffordd mewn marchnad agored.

10 Ni chaiff yr un person, heb ganiatâd Swyddog y Farchnad, nac esgus rhesymol arall, ganiatáu i nwyddau sy'n perthyn iddo, neu dan ei oruchwyliaeth, aros mewn marchnad am fwy nag awr ar ôl i'r farchnad gau.

## AWDURDOD I DDEFNYDDIO GOFOD

11 Ni chaiff unrhyw berson feddiannu neu gymryd meddiant o unrhyw stondin neu osod neu achosi i gael eu gosod unrhyw nwyddau, offer neu declynnau ar unrhyw stondin mewn marchnad oni bai a hyd nes y bydd stondin o'r fath wedi cael ei osod yn briodol neu fel arall wedi'i ddyrannu gan Swyddog y Farchnad ar gyfer defnydd y person hwnnw.

12 Ni chaiff unrhyw berson godi na gosod na cheisio codi na gosod unrhyw stondin mewn marchnad heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol Swyddog y Farchnad.

13 Lle mae'r Cyngor:

(a) yn dynodi unrhyw ran o farchnad ar gyfer gwerthu nwyddau neu unrhyw ddosbarth o nwyddau neu ar gyfer gwerthu mewn ocsiwn; a,

(b) dangos mewn lle amlwg neu hysbysiad cyhoeddus i'r perwyl hwnnw;

ni chaiff unrhyw berson werthu nwyddau na dal gwerthiant mewn arwerthiannau, ag eithrio yn unol â thelerau'r dynodiad hwnnw.

## AR GYFER GLENDID CYNNAL A CHADW

14 Rhaid i bob tenant neu feddiannydd stondin:

(a) achosi i'r stondin gael ei lanhau yn iawn cyn ac ar ôl gwerthu nwyddau am y diwrnod ac mor aml ag y bo angen yn ystod y dydd;

(b) mor aml ag sy'n angenrheidiol achosi i bob sbwriel o'r stondin, a phob sbwriel sy'n codi o lwytho neu ddadlwytho nwyddau sydd eu hangen mewn cysylltiad â defnyddio'r stondin, i gael ei symud heb greu niwsans na rhwystr.

## ER CADW TREFN

15 Ni chaiff yr un person daflu, gollwng neu adael yn neu ar unrhyw lwybr, ffordd neu dramwyfa mewn marchnad unrhyw fater ffrwythau neu lysiau neu unrhyw sbwriel arall mewn modd sy'n debygol o achosi anaf neu niwsans i unrhyw berson, boed hynny yn fwriadol neu'n esgeulus.

Ar yr amod na fydd yr Is-ddeddf hon yn berthnasol mewn perthynas ag unrhyw le yn yr awyr agored hon y mae Deddf Sbwriel 1983 neu unrhyw welliant iddi yn berthnasol iddo.

16 Rhaid diffodd pob golau a ddefnyddir mewn cysylltiad â stondin dim hwyrach nag awr ar ôl i'r farchnad gau.

17 Ni chaiff yr un person mewn unrhyw farchnad ganu unrhyw gloch na chwythu unrhyw gorn na defnyddio unrhyw offeryn swnllyd arall nac unrhyw seinchwyddwr nac uchelseinydd i ddenu sylw neu gwsmeriaeth unrhyw berson i unrhyw werthiant neu i unrhyw nwyddau y bwriedir eu gwerthu.

18 Ni chaiff yr un person yn fwriadol neu'n amhriodol faeddu, halogi, niweidio neu ddinistrio unrhyw ran o farchnad neu unrhyw goed addurnol neu lwyni yno neu yn y ffyrdd yno neu unrhyw un o'r ffitiadau neu'r cyfarpar a ddarperir gan y Cyngor i'w defnyddio mewn marchnad.

19 Oni bai bod y caniatâd ysgrifenedig gan Swyddog y Farchnad yn cael ei sicrhau yn gyntaf, ni chaiff unrhyw berson ar wahân i Swyddog neu Was y Cyngor sy'n gweithredu'n briodol wrth gyflawni ei ddyletswydd, bostio neu arddangos unrhyw fil, hysbyslen neu boster, heblaw disgrifiad o ddatganiad o bris nwyddau sydd ar y pryd, neu'n mynd i gael eu dangos neu y bwriedir eu dangos i'w gwerthu neu enw a chyfeiriad masnachwr yn neu ar unrhyw ran o farchnad.
Ar yr amod na fydd yr Is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw fil, hysbyslen neu boster sy'n cael ei bostio neu ei arddangos yn unol â Rheoliad 13(1) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Marchnadoedd, Stondinau a Cherbydau Cyflenwi) 1966 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Hylendid Bwyd (Marchnadoedd, Stondinau a Cherbydau Cyflenwi) (Diwygio) 1996, neu ar fwrdd arddangos a ddarperir at y diben hwnnw gyda chydsyniad y Swyddog Marchnad.

20 Oni cheir caniatâd ysgrifenedig Swyddog y Farchnad yn y lle cyntaf, ni chaiff yr un person mewn marchnad, ag eithrio trwy gyfrwng gwerthu, ddosbarthu neu geisio dosbarthu i'r cyhoedd mewn marchnad unrhyw fathodynnau, sticeri, taflenni, hysbyslenni, cardiau, pamffledi, llyfrynnau neu lenyddiaeth arall.

## FFRWYDRON

21 Ni chaiff unrhyw berson rhag achosi perygl i unrhyw berson, gadw, storio neu werthu unrhyw bowdwr gwn, tân gwyllt neu sylwedd ffrwydrol arall neu unrhyw nafftha, nwy potel, petroliwm neu olew paraffin neu sylwedd fflamadwy arall mewn marchnad.

Ar yr amod na fydd unrhyw beth yn yr Is-ddeddf yn berthnasol i unrhyw offer, ffitiadau neu gyfarpar sy'n angenrheidiol ar gyfer goleuo stondin cyhyd ag y mae'r un peth yn cydymffurfio â gofynion Sefydliad Safonau Prydain.

## ANIFEILIAID

22 Ni chaiff unrhyw fasnachwr gadw unrhyw gi neu anifail wrth ei stondin ar yr amod na fydd unrhyw beth yn yr Is-ddeddf hon yn atal person dall rhag dod â a chadw mewn marchnad unrhyw gi tywys sy'n perthyn iddo neu dan ei oruchwyliaeth.

## COSBAU

23 Bydd pob person a fydd yn cynnig yn erbyn unrhyw un o'r Is-ddeddfau hyn yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n fwy na £100.00 (CANT O BUNNOEDD).

CADARNHAODD YR YSGRIFENNYDD GWLADOL DRWY HYN YR IS-DDEDDFAU BLAENOROL A DDAETH I RYM AR 3 EBRILL 1996.

## CYNGOR SIR Y FFLINT

# RHEOLIADAU MARCHNAD - GORFODI HYSBYSIAD YNGLŶN Â THRAMGWYDDO

**MARCHNAD:** ______________________________

**I:** ______________________________

______________________________

______________________________

**Rhif(au)'r Rheoliad:** ______________________________

**TRAMGWYDDIAD:**

**Yr ydych drwy hyn yn cael Rhybudd eich bod wedi torri y Rheoliad(au) uchod oherwydd y ffaith:**

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

**Gofynnir ichi, felly:** ______________________________

______________________________

______________________________

______________________________

**(1)*** **Bydd methu â chydymffurfio â'r Rhybudd yn arwain at adrodd y mater i Gyfarwyddiaeth yr Amgylchedd am gamau pellach.**

**(2)*** **Bydd y tramgwyddiad, felly, yn cael ei adrodd i'r Portffolio Cymuned a Menter i'w weithredu ymhellach.**

______________________________

**CYFLWYNWYD YR HYSBYSIAD HWN I'R MASNACHWR MARCHNAD A ENWIR UCHOD YN**

**AR Y** ______ **DIWRNOD O** ______________ **20** ______ **GAN** ______________________

*(LLOFNOD AC ENW PRINT)*

**DYNODIAD**: ______________________ ** DILEUWCH FEL BO ANGEN*

*Diweddarwyd y Rheoliadau yng Ngorffennaf 2022*